



Eich cyf/Your ref P-06-1183
Ein cyf/Our ref LW/10935/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau

deisebau@senedd.cymru

6 Medi 2021

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Awst ynghylch Deiseb P-06-1183 a gawsoch gan Daniel Worsley yn gofyn am gyflwyno terfyn cyflymder o 20mya 200 metr bob ochr i'r groesfan newydd i gerddwyr ar yr A470 yng Nglan Conwy.

Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd diogelwch pob defnyddiwr ffordd o ddifrif ac mae'n adolygu'n rheolaidd y terfynau cyflymder ar y rhwydwaith cefnffyrdd, yn unol â'r [canllawiau](#) presennol gyda'r nod o nodi'r angen am welliannau i ddiogelwch gan gynnwys mesurau peirianeg neu newidiadau i derfynau cyflymder. Gosodir terfynau cyflymder yn seiliedig ar nifer o feini prawf gan gynnwys gwrthdrawiadau anafiadau personol a lefel y datblygiad sy'n gyfagos i'r ffordd.

Cynhaliwyd adolygiad o'r llwybr y llynedd ac er nad oedd y safle'n gymwys ar gyfer Arwydd sy'n cael ei Gynnau gan Gerbydau (VAS), mae'r gwaith wedi'i gwblhau'n ddiweddar gan Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru i dynnu sylw gyrwyr at y groesfan wrth iddynt agosáu ati o'r ddau gyfeiriad.

Byddai Llywodraeth Cymru yn annog trigolion pryderus i fynegi eu pryderon i GanBwyll, y Bartneriaeth Diogelwch ar y Ffyrdd, sy'n gyfrifol am orfodi terfynau cyflymder. Gallant wneud hynny drwy'r dudalen we ganlynol: [GanBwyll – Cysylltwch â ni](#)

Cwblhaodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen 20mya (TFG), dan gadeiryddiaeth Phil Jones, ei waith a chyhoeddodd ei [adroddiad](#). Mae'r adroddiad yn nodi'r achos dros newid a thystiolaeth gysylltiedig. Rydym wedi derbyn holl argymhellion y TFG ac mae ein hymateb yn tynnu sylw at sut y bydd pob un ohonynt yn cael eu datblygu i'w gweld [yma](#), gyda'r bwriad o'r terfyn cyflymder diofyn o 20mya yn dod i rym ym mis Ebrill 2023.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd cynlluniau i leihau'r terfyn cyflymder diofyn cenedlaethol yng Nghymru o 30mya i 20mya ar ffyrdd preswyl a strydoedd prysur i gerddwyr yn rhan o flaenoriaethau deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer eleni. Mae cam cyntaf y newid hwn yn cael ei gyflwyno mewn wyth cymuned ledled Cymru eleni er mwyn casglu data a datblygu dull arfer gorau cyn cyflwyno'r newid yn llawn yn 2023. Mae rhagor o fanylion ar gael [yma](#).

Mae cam cyntaf cyflwyno'r terfyn cyflymder diofyn o 20mya wedi dechrau mewn 8 cymuned ledled Cymru er mwyn casglu data a datblygu dull arfer gorau cyn cyflwyno'r terfyn llawn arfaethedig yn 2023. Bydd y data a gesglir yn cael ei ddefnyddio i gefnogi a llywio penderfyniadau yn y dyfodol. Y cymunedau hyn yw:

- Llandudoch, Sir Benfro
- Gogledd Llanelli, Sir Gaerfyrddin
- Saint-y-brid, Bro Morgannwg
- Canol Gogledd Caerdydd
- Pentref Cil-ffriw, Castell-nedd Port Talbot
- Y Fenni, Sir Fynwy
- Glan Hafren, Sir Fynwy
- Bwcle, Sir y Fflint

Fel rhan o'r dull hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi lansio ymgynghoriad i bobl ddweud eu dweud ar y newid cyn i'r deddfwriaeth angenrheidiol gael ei gosod. Bydd yr ymgynghoriad yn para am 12 wythnos a bydd yn dod i ben ar 30 Medi. Mae manylion llawn yr ymgynghoriad ar gael [yma](#).

Yn gywir,



Lee Waters AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change